

**RHAGLEN**

**DATGAN BUDDIANNAU**

Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

**2. CYFLWYNIAD: GIDEONS INTERNATIONAL I'R MAER**

Derbyn cynrychiolydd o Gideon's International (Cangen Clwyd) i gyflwyno copi o'r Ysgrythur i'r Maer.

**3. CYFLWYNIAD HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Croesawu i'r cyfarfod y Prif Gwnstabl Mark Polin i dderbyn cyflwyniad ar gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i ddelio â throsedd yn y Rhyl (copi o ohebiaeth ynghlwm).

**4. COFNODION**

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

Cyfarfod y Cyngor - 19eg Gorffennaf 2017 - Rhifau Cofnod 25-42

Pwyllgor Cynllunio - 19eg Gorffennaf 2017 - Rhifau Cofnod 10-12

Pwyllgor Cynllunio - 6ed Medi 2017 - Rhifau Cofnod 13-18

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 6ed Medi 2017 - Rhifau Cofnod 44-61

**5. ADRODDIAD Y MAER**

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

**6. AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CREDYDWYR CYMERADWY**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**7. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – GALW AM SAFLEOEDD POSIBL I SIPSIWN A THEITHWYR**

Derbyn y ddogfen ymgynghori uchod a phenderfynu ar ymateb y Cyngor Tref (copi'n amgaeëdig).

**8. BARN ARCHWILWYR ALLANOL AR DDATGANIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR 2016/17**

Derbyn ymateb yr Archwiliwr Allanol (copi'n amgaeëdig) ar y datganiad blynyddol a gyflwynwyd a'i gymeradwyo, gyda Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol i lofnodi ar ran y Cyngor.

**9. EITEMAU ER GWYBODAETH**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**10. HOLI AC ATEB**

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

**11. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

**12. 2018/19 RHAGLEN DIGWYDDIADAU BACH**

Derbyn adroddiad llafar Clerc y Dref yn gofyn am gyfarwyddyd/gadarnhad mewn perthynas â Rhaglen Digwyddiadau Bach y Cyngor Tref ar gyfer 2018/19.

**13. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU'R HEDDLU**

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

**14. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.